

Adroddiad blynyddol

2018-2019



Antur Waunfawr



@AnturWaunfawr



Prif swyddfa:
Bryn Pistyll | Waunfawr | Caernarfon
Gwynedd | LL55 4BJ
www.anturwaunfawr.cymru

Ffôn: 01286 650721
E-bost: swyddfa@anturwaunfawr.cymru

Rhif elusen: 515445 Rhif cwmni: 1832813





Gair gan y brif-weithredwraig

Gobeithiaf yn fawr y cewch flas ar ddarllen yr Adroddiad
Blyneddol yma sy'n crynhoi prif lwyddiannau ein
digwyddiadau a phrosiectau ar hyd y flwyddyn.

Menna Jones



Blaenoriaethwyd iechyd a llesiant a gwaith
y 3 busnes gwyrdd, ond cafwyd digon o
hwyl a mwynhad. ' Rydym yn hynod falch o
ymdrech ac ymroddiad pawb yn yr Antur ac
mae llwyddiant y fenter yn perthyn i pawb.
Edrychwn ymlaen tuag at 2020 yn hyderus
gyda'r nod o gyflawni yr un safon uchel
o wasanaeth, darparu profiadau
a chyfleoedd ychwanegol
i'r gweithlu presennol, ond
byddwn hefyd yn ymestyn
croeso i bobl newydd.



Cynnwys

3	Gair gan y brif-weithredwraig
4	Nod ac amcanion
5	Datganiad llesiant
6	Safleoedd Antur Waunfawr
7	Safle Bryn Pistyll
8	Warws Werdd a Chaergylchu
9	Beics Antur
10-11	Iechyd a Llesiant
12	Hyfforddiant a datblygiad
13	Marchnata
14-15	Cyfleoedd a datblygiad
16	Aelodau'r bwrdd a thîm rheoli

Nod ac Amcanion

- Darparu gwaith a gweithgaredd ystyrlon a deniadol a chyfleoedd hyfforddiant blaengar mewn amgylchedd gefnogol i unigolion ag anableddau a'r difreintiedig.

- Darparu cartrefi o ansawdd uchel gyda chefnogaeth a pharch i rymuso'r unigolion i fyw bywydau llawn ac annibynnol fel tenantiaid.

- Darparu cynlluniau cynaliadwy a gwasanaethau ail-ddefnyddio ac ail-gylchu proffesiynol yng ngogledd Cymru mewn cydweithrediad â chyrff statudol a phreifat.

- Datblygu modelau o gynllunio person canolog a hyrwyddo Cefnogaeth Weithgar fel rhan o gynlluniau yr unigolion, a rhaeadru'r broses trwy weithgaredd/gwaith yr Antur.

- Hyrwyddo integreiddio a byw'n iach ym mhob agwedd o'r gwasanaethau a darpariaeth hamdden i gyfarch iechyd da, llesiant ac hapusrwydd sy'n ateb gwir ofynion yr unigolion.

- Darparu cyfleusterau hygyrch i ymwelwyr, cwsmeriaid a'r gymuned leol, a meithrin diddordeb a ffynonellau incwm cynaliadwy o'r gweithgareddau a'r safleoedd.

- Datblygu gweithgareddau cynaliadwy sy'n gydnaws ag anghenion ardal Waunfawr a Chaernarfon a chefnogi'r gymuned ehangach a gwarchod yr amgylchedd.

- Creu canolbwynt newydd llesiant a hwb i'n busnes beicio ym Mhorth yr Aur, Caernarfon.

- Bod yn gyflogwr rhagorol a blaengar, a hybu'r iaith, diwylliant, a'r economi leol.

Ein gwerthoedd

PARCH

Rydym yn dangos parch tuag at unigolion ag anableddau dysgu, staff, y cyhoedd, y gymuned a'n diwylliant bob tro. Mynegwn empathi gyda'r unigolion sy'n derbyn gwasanaeth er mwyn deall a diwallu eu hanghenion.

LLESIANT

Er mwyn cyfarch hapusrwydd a llesiant rydym yn darparu dewis eang o weithgareddau a gwasanaethau gyda'r unigolyn yn ganolog.

CYNALIADWY

Gweithredwn yn gynaliadwy - yn gymunedol, amgylcheddol ac yn ariannol er mwyn cynnal diwylliant, iaith, cymuned ac amgylchedd ffyniannus.

GRYMUSO

Datblygu'r unigolyn a'r gymuned i'w llawn potensial yw arwyddair yr Antur ac anelwn i rymuso'r economi leol a gwarchod yr amgylchedd hefyd.

PROFFESIYNOL

Arweinir a rheolir y mudiad yn effeithiol gan Fwrdd a swyddogion profiadol gydag agwedd entrepreneuriaidd i gyflawni gwasanaethau o safon.


Datganiad Llesiant

Ein nod yw creu cymdeithas
arloesol, gyfartal, gynhyrchol
a charbon isel trwy feithrin
teulu o fusnesau cynaliadwy yn
lleol - cychwyn wrth ein traed a
gweithredu'n uchelgeisiol i sicrhau
llesiant a chymunedau gwydn.

Hyrwyddo llesiant,
iechyd da ac
hapusrwydd, a galluogi
unigolion fydd congffeini
gwasanaethau Antur
Waunfawr i'r dyfodol.

Darperir gofal,
cefnogaeth weithgar,
hyfforddiant a gwaith
ystyrlon mewn modd
effeithlon a chymesur
i ateb gofynion pobl
ag anableddau
dysgu a phobl
ddifreintiedig yn
lleol.

Fel menter
gymdeithasol
bydd Antur
Waunfawr
yn cyfarch
anghenion
cymdeithasol,
amgylcheddol,
economaidd
a diwylliannol
y gymuned
leol - a hynny
trwy gyfrwng y
Gymraeg neu
ddewis iaith
yr unigolyn,
ac mewn
partneriaeth.



Deddf Llesiant
Cenedlaethau'r
Dyfodol (Cymru)
2014

Safleoedd a phrosiectau

107

Nifer o staff mae
Antur Waunfawr yn
cyflogi.

CAERGYLCHU
(CAERNARFON)

CANOLFAN AILGYLCHU
LLARPIO
CYFRINACHOL

67

Nifer o unigolion mae
Antur Waunfawr yn
cefnogi.

BEICS ANTUR
(CAERNARFON)

BEICS ADDASEDIG
LLOGI BEICS A SIOP
TRWSIO BEICS

WARWS WERDD
(CAERNARFON)

SIOP DDODREFN
AIL-LAW
DILLAD DEL
GWEITHDY

BRYN PISTYLL
(WAUNFAWR)

PRIF SWYDDFA
CAFFI BLAS Y WAUN
SIOP GREFFTAU
YR ARDD LYSIAU
CAE CHWARAE
CYNLLUN CARTREFI
AML-OFYNION

SAFLE BRYN PISTYLL

Mae'r siglen
gadair olwyn yn
Antur Waunfawr
yn unigryw yng
Ngwynedd.



Un o uchafbwyntiau
yr unigolion oedd
cynhyrchu seidr
Perllan y Fro o
gynnyrch afalau'r
Antur, gyda
chyfraniadau hael yn
dilyn 'Apêl Afalau'
Radio Cymru a
rhaglen 'Heno', S4C.



Erbyn hyn mae 4 tŷ
wedi eu gosod yn
Waunfawr, yn
gartref i 8
unigolyn.



Mae'r gwasanaeth
aml-ofynion yn
cynnig cyfleoedd
hamdden,
therapiwtig a
chymdeithasu.
Erbyn hyn,
darparwyd
gwasanaeth ar gyfer
13 unigolyn.



Caffi Blas y Waun

Yn ogystal â pharatoi
bwyd ar gyfer
ymwelwyr y safle,
mae staff y caffi yn
darparu bwffes ar
gyfer digwyddiadau
a chinio misol ar gyfer
henoed yr ardal. Dros
y flwyddyn maent
wedi parhau i gynnig
Cefnogaeth Weithgar
i'r unigolion, sydd yn
cynnig cyfleoedd i
gyfrannu at dasgau
paratoi bwyd a
phrydau yn y caffi.



Yr ardd lysiau

Tyfir llysiau a ffrwythau
ar gyfer defnydd y
Caffi a chyflwynwyd
amrywiaeth o
gyfleoedd gwaith
i unigolion ag
anableddau yn
Waunfawr, gan
gynnwys gwneud
gwin, seidr a bragu
cwrw cartref.

WARWS WERDD

Mae'r Warws yn adeilad pwrpasol ar gyfer ail-ddefnyddio ac ailgylchu dodrefn.

3 Busnes Gwyrdd

313

Y nifer o dunellau o ddeunyddiau â d'dargyfeiriwyd o'r safleoedd tirlenwi.

67

Nifer o finiau a banciau dillad mewn canolfannau lleol, yn cynnwys ysgolion a chylch meithrin.

16

Nifer o unigolion ag anableddau dysgu sy'n cael eu cefnogi yn y Warws Werdd.

CAERGYLCHU

Partneriaeth gyda Chyngor Gwynedd, sy'n ganolfan adennill deunyddiau, ac yn gartref i wasanaeth llarpio cyfrinachol Llarpio Antur.

16.8k

Nifer o sachau papur gwastraff sydd wedi'u trin a'u hailgylchu yn ystod y flwyddyn.

1598

Nifer o dunellau o blastig, papur a chetris â gasglwyd ac ailgylchwyd.

9

Nifer o unigolion ag anableddau dysgu sy'n cael eu cefnogi yn Caergyglchu.

BEICS ANTUR

Siop feics Antur Waunfawr, sy'n llogi, gwerthu a thrwsio beics. Mae hefyd fflyd o feics addasol sy'n addas ar gyfer unigolion gydag anableddau.

Symudwyd i gartref newydd y Beics, Porth yr Aur yn swyddogol ym mis Mai 2018 a phenodwyd rheolwr newydd i arwain ar y prosiect. Bydd yr adeilad newydd yn cynnwys mynediad hygrych i'r ddau lawr, gyda llofft llesiant ac ystafell synhwyrol. Cynhaliwyd gorymdaith drwy'r dre gydag unigolion a staff yr Antur ar feiciau addasedig ac arferol yn beicio o'r Cei Llechi o gwmpas y Castell ac i lawr Stryd y Plas am Borth yr Aur.



753

Y nifer o bobl sydd wedi bod yn rhan o waith ymgynghori'r prosiect Porth yr Aur.

3

Unigolyn gydag anableddau dysgu wedi derbyn gwaith a hyfforddiant ym Meics Antur.

5500

Y nifer o oriau mae'r beics wedi eu hurio yn ystod 2018-19.



Iechyd a Llesiant

Yn ystod y flwyddyn, cafwyd cyfle i ymgeisio eto am grant gan y Gronfa Iechyd Integredig. Ar ôl cyflwyno cais mewn partneriaeth a Chyngor Gwynedd cawsom grant o £50k. Ariannodd yr arian hwn brosiect Iechyd a Llesiant, i gynnig gweithgareddau iechyd a lles i unigolion Antur Waunfawr.



PERFFORMIAD AR LWYFAN!

Yn dilyn ymarferion canu gyda Annette Bryn Parri dros y blynyddoedd diwethaf, cafodd criw Antur Waunfawr gyfle arbennig i berfformio sesiwn Tonic yn y Galeri (Caernarfon). Annette wnaeth ddyfeisio'r perfformiad, ac roedd yna liaws o berfformiadau yn seiliedig ar hoff ganeuon yr unigolion. Diolch yn fawr iawn i Annette am ei holl waith caled; i griw'r Antur am ymarfer yn ddygn ar gyfer y sioe, ac i'r Galeri am roi'r cyfle i ni berfformio o flaen cynulleidfada deilwng.

“ I like going on the side-by-side bike, it makes me feel powerful, it's awesome! ”
Unigolyn Antur Waunfawr

37

Y nifer o wahanol weithgareddau Iechyd a Llesiant a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn



Mae beicio yn brofiad mae nifer helaeth ohonom yn cael fel plentyn ac yn ei gymryd yn ganiataol. Nid yw pawb yn gallu mynd ar feic arferol dwy olwyn. Cyn i Feics Antur agor roedd rhaid i ni drafaelio mor bell â Wrecsam er mwyn hurio beics wedi cael ei haddasu.

Mae cael siop yn ein hardal leol yn golygu fod oedolion gydag anableddau dwys yn cael yr un cyfle a phawb arall heb orfod trafaelio yn bell a thalu drwy eu trwynau. Mae'r golygfeydd o gwmpas Gaernarfon yn hyfryd wrth drafaelio ar feic.

Uwch Weithwraig
Cefnogol Aml Ofynion



Trip i Sioe Môn; roedd gwahoddiad i holl unigolion yr Antur



Cymryd rhan mewn twrnamaint boccia ym Mhorthmadog



Sesiynau marchogaeth gyda Stablau Marchogaeth Eryri



Doniau Cudd yn canu yng Ngŵyl Haf Antur Waunfawr

Hyfforddiant a datblygiad

Mae gan yr Antur raglen Hyfforddiant a Datblygiad cynhwysfawr sydd yn ateb gofynion ein gwasanaethau ar gyfer oedolion bregus. Mae'r prif hyfforddiant statudol yn cynnwys:

- Diogelu Lefel 2 a 3
- Cyrsiau meddyginiaeth
- NVQ 2, 3 a 5 mewn Gofal
- 'Dementia Jewel'
- Cefnogaeth Ymddygiad
- Cymorth Cyntaf
- Ymwybyddiaeth Awtistiaeth
- Hyllendid Bwyd Level 2 a 3
- Hyfforddiant arwain a rheoli

Partneriaid

Parhawyd i gydweithio gyda phartneriaid yn ystod y flwyddyn.

Mae ein partneriaid yn cynnwys:

- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Ysgol Pendalar ac Ysgol Hafod Lon
- Coleg Menai a Choleg Meirion Dwyfor
- Prifysgol Bangor
- DementiaGo
- Chwaraeon Anabledd Cymru
- Age Cymru Gwynedd a Môn ... a mwy

Rydym hefyd yn rhan o Brosiect KESS Prifysgol Bangor gyda myfyrwraig PhD ar waith ymchwil ar Raglenni Gwaith Cynllun Gweithgar. Pwrpas y prosiect ydi edrych ar sut i ddatblygu sgiliau byw a chyflogaeth ar gyfer oedolion ifanc efo anableddau dysgu, gan gynnwys y cyfnod trosglwyddo o'r Ysgolion lleol.

22

o leoliadau
profiad gwaith o
ysgolion, colegau
a phrifysgolion

428

o oriau gan y
Gwasanaeth
Prawf

2490

o oriau gwirfoddoli
rhwng 2018-2019

Llwyddwyd i
gynnal yr
Archrediad ISO
14001 a'r
Achrediad
ISO 9001 unwaith
eto eleni. Ein
gobaith yw y
bydd gweithredu
ar y broses
a'r sustemau
cysylltiedig yn
fuddiol wrth
ymgeisio am
gytundebau a
thendrau.

Sesiwn
beicio gyda
Age Cymru
Gwynedd a
Môn



Marchnata a digwyddiadau



Darparwyd stondin llwyddiannus yng Ngŵyl Fwyd Caernarfon yn gwerthu seidr Perllan y Fro a chacennau cartref.



Cynhaliwyd y 'Mudo Mawr' o hen safle Beics Antur i'r safle newydd ym Mhorth yr Aur. Cafodd yr orymdaith drwy Gaernarfon llawer o sylw, gyda 'Heno' yn ffilmio'r digwyddiad.

Enillwyd Gwobr Gofal Busnes Cymdeithasol Cymru 2018 (CCC), ac enwebiad i rownd derfynol Busnes Cymdeithasol y DU yn y Guild Hall.



8666

o ddilynwyr ar y cyfryngau cymdeithasol. Cynnydd o 2660 o 2017-2018

Ymweliad arbennig!

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn oedd ymweliad gan gynrychiolwyr o'r Cyngor Prydeinig-Gwyddelig oedd yn arsylwi ar fentrau cymdeithasol. Cafodd y criw eu tywys o amgylch yr Antur gan reolwyr y safleoedd, a chafwyd cyflwyniad gan y brif weithredwraig. Yna, bu'r caffi yn paratoi bwydlen Gymreig iddynt, a bag o anrhegion i fynd adref gyda nhw yn cynnwys potel o seidr Perllan y Fro.



Cyfleoedd a datblygiadau

PORTH YR AUR

Mae Porth yr Aur yn cynnig pyrth newydd i'n buddiolwyr, ymwelwyr a thwristiaid - hwb i'r beicio, teithiau cerdded, teithio annibynnol, chwaraeon a llesiant o ben draw'r Stryd Fawr i'r dref, Y Foryd a llwybrau Gwyrfaï a Menai. Bydd ail lawr yr adeilad yn adnodd newydd i brosiect iechyd a ffitrwydd. Bydd yn cyfarch y Ddeddf Teithio Llesol ac yn cryfhau calon y gymuned Gymraeg yn y dref, yn cyfrannu at y weledigaeth o greu Miliwn o Siaradwyr Cymraeg ac economi leol lewyrchus.

Sicrhawyd gwerth £273k o grantiau ar gyfer prosiect Porth yr Aur, sef:
Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol, £226k; Garfield Weston Foundation, £25k a Chronfa Treftadaeth Bensaernïol, £22k.

SIED WERDD

Cyhoeddwyd ar Ddydd Gŵyl Dewi fod cais am £300,000 o arian cyfalaf gan Lywodraeth Cymru wedi bod yn llwyddianus a byddwn yn cydweithio efo Cyngor Gwynedd a EGC ar brosiect 'Sied Werdd'. Bydd Antur Waunfawr yn ychwanegu at ein prosiect Warws Werdd trwy ddarparu adeilad ar gyfer gweithgareddau ail-ddfnyddio ac ailgylchu ar dir sydd ym meddiant yr Antur y tu ôl i'r Warws Werdd.



BYNGALO GWYLIAU

Mae'r gwaith o adeiladu'r Byngalo yn parhau ar safle Bryn Pistyll, a'r bwriad yw ei wneud yn llety gwyliau hygyrch, ac fel llety seibiant. Mae hwn yn gyfle da i ddatblygu rôl Antur yn y sector twristiaeth. Bydd y byngalo o safon uchel, yn llety 4 seren, sy'n addas ar gyfer unigolion gydag anableddau a'u teuluoedd.

Bu'r Antur hefyd yn llwyddiannus gyda chais i Arloesi Gwynedd Wledig i ariannu prosiect digidol i'r byngalo. Derbyniwyd £12,000 ar gyfer ariannu elfennau technolegol fydd yn helpu i gyrraedd anghenion unigolion gydag anableddau.

Mae'r farchnad
twristiaeth
gweithgareddau
awyr agored yng
Nghymru yn werth
£481 miliwn
i'r economi

Bu'r Antur yn gweithio ochr yn ochr ag artist tecstilau lleol Cefyn Burgess, a fydd yn darparu tecstilau ar gyfer y byngalo, a darparu cyngor ar ddylunio mewnol. Cafwyd grant gan y 'Clothworkers' Foundation am £20,000, i helpu i ariannu'r dodrefnu.





Aelodau'r Bwrdd

Mr John Gwynedd	Cadeirydd
Mrs Anna Lloyd Williams /	Is-Gadeirydd
Mr Rhys Evans	Is-Gadeirydd (ers Medi 2018)
Mr Kevin Hughes	Trysorydd
Ms Menna Jones	Ysgrifenyddes
Mr Huw Ynyr	Aelod
Mr Norman Williams	Aelod
Mr Geraint Strello	Aelod
Mrs Mererid Llwyd	Aelod
Mr Daron Harris	Aelod
Dr John Prys Morgan Jones	Aelod
Mrs Sara Mair Tomos	Aelod
Mr Rhys Evans	Aelod
Mrs Lowri Huws Jones	Aelod

Y Tîm Rheoli

Menna Jones	Prif-Weithredwraig
Huw Davies	Dirprwy Brif-Weithredwr
Stephen Goodwin	Uwch Reolwr Gwasanaethau
	Dydd a Phreswyl
Ellen Thirsk	Rheolwraig Adnoddau
	Dynol
Haydn Jones	Rheolwr Ailgylchu
Sioned Hughes	Rheolwraig Cyllid
Gwenlli Mai Wynne	Rheolwraig Datblygu
	Busnesau Gwyrdd